CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD 28.10.2010 A GYNHALIWYD YN
NEUADD YR EGLWYS LLANBEDR PONT STEFAN GAN DDECHRAU AM 7.30PM

I. CROESO GAN Y CADEIRYDD AC OFFRYMU GWEDDI

Croesawodd y Cadeirydd, y Dirprwy-Faer Hag Harris yr holl aelodau i'r Cyfarfod. Offrymwyd gweddi gan y Cyng. Greg Evans.

YN BRESENNOL

Dirprwy-Faer Robert (Hag) Harris (Cadeirydd);
John Davies; Margaret Davies-Evans;
Greg Evans; Dorothy Williams & Derek Wilson.
Y Cynghorydd Sirol Ivor Williams
Y Plismon Walters; SCCH Ryan Jones
Elin Davies-Russell -Gweithiwr Ieuenctid All Gymorth; Canolbarth Ceredigion (Aberaeron, Tregaron, Llambed, Aberteifi a Llandysul)
Mr Lawrence Fleming, Gweithiwr Ieuenctid Ardal, Canolbarth Ceredigion.

2. CYFLWYNIAD: GWASANAETHAU IEUENCTID CEREDIGION

Derbyniwyd cyflwyniad gan Elin Davies-Russell Gweithiwr Ieuenctid All Gymorth, Canolbarth Ceredigion a oedd yng nghwmni Mr Lawrence Fleming, Gweithiwr Ieuenctid Ardal.

Y mae rhaglen-waith y Weithwraig Ieuenctid yn ymroi i helpu'r ieuainc rhwng16-19 oed. Byddant yn cael eu ricriwtio drwy waith partneriaeth, cyfeirebau, ymarferwyr ac all gymorth. Anogir yr ieuenctid yn eu harddegau i geisio am gymwysterau achrediad ac i gymryd rhan gweithredol yn y darpariaeth presennol a gynigir gan y Gwasanaeth Ieuenctid. Clustnodir achrediad mewn meysydd megis Ffotograffiaeth, Sgiliau DJ, Llunio Ffilm, Beicio ar y Mynyddoedd a Sgiliau Bywyd ee rheoli arian. Caiff sgiliau tîm a sgiliau gwrando eu dysgu a chymerir rhan yng nghynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Funky Dragon*, sy'n hybu dinasyddiaeth weithgar. Sefydlwyd Fforymau ar gyfer yr Ieuenctid a thripiau, gwersylloedd ac ymweliadau cyfnewid ee i Bortiwgal a Gwlad Pwyl. Cyfarfu'r mudiad bob Nos Lun o 4-6.00pm yng Nghorsaf Dân, Llambed.

Y mae'r Clwb Ieuenctid Llambed yn gwasanaethu ystod oedran 11-25 oed. Cynhelir bob nos Lun a nos Fercher o 6.30-9.00pm yng Nghanolfan Steffan, Llambed adeg tymor yr ysgol. Trefnir gweithgareddau gwahanol yn ystod y gwyliau. Y mae Clwb Ieuenctid Llambed yn cyflogi Hŷn-weithiwr Ieuenctid (3.5 awr yr wythnos); a 2 Weithiwr Ieuenctid (3 awr yr wythnos). Caiff yr ieuainc eu haddysgu ym meysydd megis democratiaeth, rôl y gwasanaethau brys, coginio, gweithgareddau codi arian, cyfrannu yng ngemau a rhaglenni a'u trefnwyd gan y Gwasanaethau Ieuenctid yn ogystal â digwyddiadau "sbri" ee y Disgo Golau Glas a lwyfannwyd ym mhartneriaeth â'r Heddlu. Gofynnwyd tybed a oedd yna bosibilrwydd y gwelir tŵf parthed y Clwb Ieuenctid. Adroddwyd bod nifer o'r ieuainc yn mynychu'r Clwb ond gobeithir gweld cynnydd yn y rhif yn ystod y dyfodol. Adroddwyd bod ail-sefydlu'r Clwb yn Llambed wedi bod yn llwyddiannus a gobeithir ehangu ar hyn yn ystod y dyfodol.

YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Maer Rob Phillips; Cynghorwyr Tref Cecilia Barton; Andrew Carter; Lynda Mason-George; Kistiah Ramaya; Chris Thomas & Selwyn Walters. Roedd y Maer Rob Phillips a'r Cynghorwyr Barton, Ramaya a

Walters yn absennol gan eu bod yn ymweld â St Germain-sur-Moine, tref a gefeilliwyd â Llambed.

3. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Bu i'r Heddlu ddiweddaru aelodau parthed digwyddiadau.

3.1 Ardal Gwahardd Alcohol ar gyfer Llambed – Adroddwyd bod alcohol yn cael ei yfed ym Mharc-yr-Orsedd ac ar y fainc gerllaw Archfarchnad y Co-op. Dywedodd y SCCH Ryan Jones bod diffyg golau ym Mharc-yr-Orsedd, yn anfantais,

3.2 Y mae'r fan transit, heb dreth a gyfeiriwyd ato yn ystod cyfarfod mis Awst a Medi'r Cyngor Tref wedi ei symud oddi ar y Cwmins. Trafodwyd torri'r gyfraith ynglŷn â pharcio a derbyn cosb heb fod yn gosb troseddol.

3.3 Y mae ymholiadau'n mynd yn eu blaen parthed y cerrig beddau a chwalwyd ym mynwent San Pedr. Y mae 3 person ieuainc wedi eu dal am gyflawni'r drosedd (croes-gyf 6.3).

4. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU

4.1 Bu i'r Cyng. Harris ddatgan buddiant personol a sy'n rhagfarnu yn ystod y drafodaeth yn ymwneud â'r Arolwg o Drefniadau Etholiadol Cynigion Drafft, Sir Ceredigion yn ystod cyfarfod mis Medi'r Cyngor Tref. Ar ôl derbyn cyngor gan Claire Jones, Adran y Gyfraith, CSC, eglurodd y Cyng. Harris yr oedd yn ddi-angen iddo ddatgan buddiant sy'n rhagfarnu. Byddai datgelu buddiant personol wedi bod yn ddigonol ar yr achlysur hwn a gallai wedi cyfrannu i'r drafodaeth.

5. CADARNHAU COFNODION y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 30ain o Fedi 2010

Penderfynwyd bod cofnodion mis Medi yn gofnod cywir. Arwyddwyd gan y Cadeirydd.

6. MATERION SY'N CODI

6.1 Gwelliannau i'r Sgwâr Harford

Gofynnir am gytundebau ar ôl i'r Maer gysylltu â'r Orsaf Dân, Llambed i ofyn tybed a fyddai'n bosibl iddynt olchi'r slabiau. Y mae'r gwaith wedi ei dorri i lawr i 4 rhan. Bu i'r Cyng. Derek Wilson siarad â Mr John Jones, Saer Maen, a Mr Gwilym Price ynglŷn â gwella cyflwr y Ffynnon (rhan o'r gwaith i'w hysbysebu arwahân oherwydd natur arbenigol y gwaith; bydd y 3 rhan arall yn cael eu hysbysebu fel un cytundeb). Eiddo'r Banc HSBC yw'r coblau ar y ddwy ochr i Sgwâr Harford. Bydd yn ofynnol i gyflwyno anfonebau i'r CSC erbyn 31 Mawrth 2011 i fod yn gymwys ar gyfer grant o 30%. Rhaid i'r CT geisio am Drwydded Stryd (£170) a rhaid i gontractwyr gydymffurfio â Pholisi Caffaeliad y CSC ee rheolau iechyd a diogelwch, bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn lle ac asesiadau risg. **Penderfyniad: i gysylltu â'r Maer am gyngor pellach.**

6.2 Cyfarfod Ymgynghorol â'r Cyngor Sir: 16 Tachwed 2010 am 7.00pm yn Neuadd Fictoria: Cwestiynau i'w Cyflwyno o flaen llaw: Y Ganolfan Integredig i Blant; Mountwalk; Maes Parcio'r Rookery; Prosiect Lôn Picton; cynlluniau y dyfodol ar gyfer Neuadd Fictoria a Gwaith Siarter a'r cysyniad o ddirprwyo cyfrifoldeb am weithgareddau oddi ar y CSC. **Penderfyniad: Aelodau i gyflwyno cwestiynau pellach os dymunant i'r Clerc, erbyn y 7fed o Dachwedd.**

6.3 Apêl y Cerrig Beddau: Bu i'r Maer siarad â'r Canon Aled Williams parthed yr Apêl. Cytunwyd i drefnu noson yn Neuadd yr Eglwys i ganiatau aelodau'r cyhoedd y cyfle i wneud cyfraniad. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael.
Penderfyniad: Y Clerc i gysylltu â'r Maer i gydlynu dyddiad addas. Gall y cyhoedd anfon cyfraniadau i'r Cyngor Tref dan law'r Clerc. Ar ôl sefydlu

dyddiad, y Clerc i hysbysu'r Wasg, Y Cambrian News a'r Carmarthen Journal, gosod hysbyseb ar yr hysbysfwrdd ac ar y safle ar y we.

6.4 **Lôn Picton: Adborth: Cyfarfod safle 20.10.2010**. Bu i gynrychiolaeth o'r Cyngor Tref sef y Dirprwy-Faer Hag Harris (Cadeirydd); Selwyn Walters; Margaret Davies-Evans; Y Clerc a'r Cyng. Sirol Ivor Williams gyfarfod â Swyddog o'r Adran y Priffyrdd, Eiddo a Gwaith CSC,sef Mr Tom Delph-Januirek ar yr 20.10.2010. Trafodwyd opsiynau gwahanol. Argymhellaid y CSC oedd cau 'r fynedfa'r Lôn, Stryd y Bont, yn barhaol. Y mae 200 o gerbydau'n teithio i'r dwyrain (o Stryd Newydd i Stryd y Bont) yn feunyddiol, a 30 i'r gorllewin. Ar gyfartaledd 13.4mya yw cyflymder y cerbydau a meddylid ei fod yn ormodol wrth ystyried culni'r lôn. Byddai'r system newydd a grybwyllwyd gan y CSC yn gwahardd traffig rhag teithio drwy'r lôn i'r dwyrain, sydd wedi bod yn gonsyrn aruthrol i drigolion lleol. Caniataer mynedfa o gyfeiriad Stryd Newydd a bwriedir arddangos arwyddion cymwys i'r perwyl hwn.

Nid oedd y CSC o blaid y trefniant "un-ffordd" gan y byddai'n debygol fod modurwyr yn codi cyflymder ac yn berygl ychwanegol i gerddwyr a beicwyr. Byddai'r dull newydd yn cael gwared a'r anhawster a wyneba modurwyr pan geisiant droi i'r lôn o gyfeiriad Stryd y Bont (pan yn teithio o'r dref). Rhaid aros i gerbydau o Gwmann i fynd heibio cyn troi ac ym aml cyfarfyddant â cherbydau'n teithio i'r dwyrain. Fel canlyniad rhaid iddynt wrthdroi i Stryd y Bont. Adroddwyd nad oedd y lôn yn ddigon cadarn i gynnal mesuriadau distewi traffig. Ni fyddai trefniant pyst yn cael ystyriaeth ar gyfer 2 ben y lôn.

Bu i aelodoau ystyried yr adborth. Cynigwyd i dderbyn y Gorchymyn hy i wahardd cerbydau rhag derbyn mynediad o gyfeiriad Stryd Y Bont – 2 bleidlais dros y cynnig, 2 yn erbyn ond yn hytrach i gyflwyno arbrawf i wahardd cerbydau i dderbyn mynediad o Stryd y Bont am gyfnod; un atal bleidlais ac un pledlais fwrw gan y Cadeirydd yn erbyn y cynnig a dros yr arbrawf. Cytunwyd i hysbysu'r CSC bod aelodau'r CT yn derbyn eu hawgrymiadau ond eu bod yn ffafrio cynllun arbrofol i gau mynedfa ochr Heol y Bont dros dro ac i asesu'r canlyniadau cyn dod i benderfyniad ynglŷn â'r Cynllun parhaol. Y mae aelodau'n ymwybodol mai cynllun ar y cyd yw'r fenter rhwng y CT a'r CSC ac wedi cytuno i dalu oddeutu £1,000. Amlygwyd yn ystod y cyfarfod petai'r dull dros-dro yn cael ei fabwysiadau ar y cychwyn, i'w ddilyn gan y trefniant parhaol, byddai'r gost yn fwy wrth gymharu â gosod y trefniant parhaol mewn lle ar y cychwyn cyntaf.

6.5 **CCB Un Llais Cymru 9.10.2010:** Bu i'r Gyng. Dorothy Williams a'r Maer Rob Phillips fynychu'r Cyfarfod. Materion a drafodwyd (Atodiad 1).

6.6 **Rheoli Risg o Erydu Arfordirol a Llifogydd: Datblygu Strategaeth Genedlaethol i Gymru.** Y CSC yn gofyn i'r Cyngor Tref petaent yn gallu eu cynorthwyo i ddarparu gwybodaeth ynghylch unrhyw feysydd o risg sylweddol o lifogydd y dylid gael eu nodi ac os yn bosibl ddarparu rhai dyddiadau o ba bryd y digwyddodd y llifogydd, eu maint, eu ffynhonnell a'u hachos. Gan fod y Gyng. Elsie Dafis ac Andrew Carter yn absennol, ni drafodwyd y mater.

6.7 **Arwyddion o fewn y dref:**

- Arwydd ar gyfer y ffin Sir Gâr/Ceredigion &
- Arwyddion Bryn-yr-Eglwys/Penbryn & Maesyderi/Gwêl y Creuddyn: disgwylir datblygiadau pellach gan y Cyngor Sir parthed yr uchod.

6.8 **Hysbysfwrdd y Cyngor Tref**:Cyng. Wilson i beintio'r hysbysfwrdd yn ystod y dyfodol agos.

6.9 **Cais am feinciau eistedd cyhoeddus ar gyfer y Stryd Fawr**: roedd y gohebydd wrth gefn i'r ymholiad o'r farn ei fod yn ddyledus ar y CT i ddarparu lle eistedd ar gyfer y Stryd Fawr, yn enwedig ar gyfer yr henoed. **Dim dablygiadau: Y Cyng. John Davies i glustnodi sylw pellach i'r mater.**

6.10 **Dodrefn y Cyngor Tref:** Oherwydd absenoldeb y Cyng. Selwyn Walters cytunwyd i ohirio'r drafodaeth tan y cyfarfod nesaf.

6.11 **Disgl loeren** wedi ei harddangos ar y Stryd Fawr: adroddwyd bod angen caniatâd cynllunio pan yn arddangos ddisgl loeren o fewn Ardal Cadwraeth.

6.12 **Atgoffwyd y Cyfarfod o'r trefniadau** a oedd ar y gweill ynglŷn â gwasanaeth Sul y Cofio ger y Gofgolofn am 11.00am ar y 14.11.2010 i gofio'r rai hynny a fu farw yn ystod y Ddwy Rhyfel Fawr y ganrif olaf a mewn brwydrau terfysgol ers hynny. Hefyd i gadw 2 funud o osteg ar y Sgwâr ar yr 11.11.2010 am 11.00am

7. GOHEBIAETH

7.1 **Cyfarfod Partneriaeth Pobl leuainc 19.11.2010** am 9.30am, Hen Neuadd, Coleg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant: Enwebwyd y Maer; Cyng. Chris Thomas; Elsie Dafis a Lynda Mason-George i fynychu'r Cyfarfod.

7.2 **Llythyr gan aelod o'r cyhoedd parthed y** gorlenwad o draffig ar Stryd y Felin – i ail-gyfeirio'r llythyr at y Cyngor Sir ac i hysbysu'r anfonwr.

7.3 **Cyfarfod Ardal Ceredigion Un Llais Cymru Hydref 2010:** nid oedd y Maer a'r Gyng. Dorothy Williams yn bresennol.

7.4 **Cyngor Tref Aberystwyth**: Cytundeb Siarter rhwng y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir: Y mae CT Aberystwyth am gymryd cyfrifoldeb am wasanaethau o fewn ei bwerau statudol o ddwylo CSC, mewn egwyddor, ac yn gobeithio y gall unrhyw gytundeb siarter a ddatblygir gan *Un Llais Cymru* gymryd hyn i ystyriaeth, gan gynnwys cyllid priodol. Penderfynodd aelodau Cyngor Tref Aberystwyth i ysgrifennu at Gynghorau Tref yng Ngheredigion i ofyn petaent yn cytuno â'u dyhead o gymryd cyfrifoldeb am weithgareddau â'r cyllid i gyfateb a phetaent yn barod i gydweithredu i symud y mater yn ei flaen. Cytunwyd i enwebu'r Maer i fynychu'r Cyfarfod i gynnwys cynrychiolwyr o Gynghorau Tref Ceredigion i gyfarfod mewn safle canolog, gyda'r nod o drafod y mater ymhellach.

7.5 **Siambr Fasnach Llambed:** Rhestr o ddigwyddiadau ar ddigwydd.

- **Nos Wener 3 Rhagfyr:** Goleuo'r Goeden Nadolig, cyngerdd i ddilyn yn y Brifysgol a bwffet a diodydd. Gwahoddir y Maer i oleuo'r goleuadau Nadolig ac estynnir gwahoddiad i holl gynghorwyr i ymuno ag aelodau'r Siambr Fasnach yn nathliadau'r noson.
- **Nos Iau 9fed Rhagfyr Siopa Nadolig hwyr yn y dref (croes gyf 7.6):** Gofynnir i'r Maer wneud anerchiad yn ystod y Seremoni Agoriadol ac i feirniadu'r Gystadleuaeth Ffenestr Siop Orau.

7.6 **Cau Heol dros dro oherwydd digwyddiad arbennig,** Stryd Fawr, Llambed 15.00-21.00, 9.12.2010: Siopa Nadolig yn Hwyr: Siambr Fasnach Llambed.

7.7 **Ynadon yn y Gymuned:** Swyddfa Llys Ynadon Aberaeron yn dweud eu bod yn barod iawn i drefnu i Ynad ddod i siarad am rôl a swyddogaeth yr ynadaeth yn un o gyfarfodydd y Cyngor Tref. Penderfynwyd i beidio â derbyn y cynnig.

7.8 **Cylchgrawn Cymru Wledig:** er gwybodaeth.

7.9 **Cynulliad Cenedlaethol Cymru:** Arolwg Cynghorau Tref a Chymuned 2010: i'w gwblhau gan y Clerc mewn ymgynghoriaeth â'r Maer.

7.10 **Man Cyfarfod Cyhoeddus Cymraeg Seminar yr Hydref:** Awdurdodau Lleol sydd heb fod yn defyddio Ynni Niclear. Yr Economeg yn ymwneud â'r cynnydd yn nefnydd o Ynni Niwclear yng Nghymru– A ydy'n bosibl i dalu amdano, pwy sy'n talu a sut y dylai pŵer ynni gael ei ariannu yn ystod y dyfodol? Dydd

Iau 25ain o Dachwedd, Swyddfa'r Cyngor, Boulevard St. Brieuc, Aberystwyth. Enwebwyd y Maer i fynychu'r Cyfarfod,

7.11 Holiadur Heddlu Dyfed-Powys: Y Maer i gwblhau'r holiadur ar ran y CT.

7.12 Cyfarfod Ymgynghorol Cymunedol ar y Cyd Ceredigion 2010 Heddlu Dyfed-Powys: : Penmorfa Aberaeron 11.11.2010: Enwebwyd y Cyng. Kistiah Ramaya i fynychu'r Cyfarfod.

7.13 Cyfarfod y Mynyddoedd Cambria: 9.11.2010: Y Cyng. Greg Evans i fod yn brersennol.

7.14 Cyngor Henoed Ceredigion: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 18.11.2010 am 2.00pm, Neuadd Goffa, Aberaeron: Enwebwyd y Maer i fynychu'r Cyfarfod.

7.15 Polyn Basged sy'n Hongain: wedi ei ddifrodi ar y Cwmin gan gerbyd. Ebost gan GSC yn gofyn i'r CT i glustnodi sylw pellach i'r mater gan mai eiddo'r Cyngor Tref yw'r postyn. Penderfyniad: Y Cyng. Harris i drafod ymhellach â'r heddlu i geisio gwybodaeth pellach parthed y digwyddiad; y Cyng. Greg Evans i dynnu lluniau o'r post a'r Clerc i gysylltu â'r CSC i drefnu i'w drwsio neu ei gyfnewid. I ofyn i'r CSC am enwau'r Cyflenwyr gan mai CSC oedd y rhai a osodwyd y post mewn lle ar y cychwyn cyntaf yn ystod cystadleaueth "Mewn Blodau".

7.16 Gohebiaeth eraill: er gwybodaeth yn unig.

8. MATERION CYNLLUNIO

CEISIADAU CYNLLUNIO (Ymatebion wedi eu cyflwyno gan y Maer a'r Dirprwy-Faer neu'r Maer y Flwyddyn Flaenorol)

8.1 Codi estyniad, Bryn Llys, Heol y Bryn, Llambed: angen sylwadau erbyn 20.10.2010: Dyfarniad y CT: Dim gwrthwynebiad.

8.2 Darparu llain ar gyfer holl newidiadau yn yr hinsawdd i gynnwys llif-oleuadau – Ysgol Gyfun Llambed: angen sylwadaeu erbyn y 14.10.2010: Dyfarniad y CT: Dim gwrthwynebiad.

8.3 Newidiadau ac addasiadau i'r cyntedd ar fynedfa'r tŷ a newid safle drws y mynedfa, Wern Driw, Stryd Fawr, Llambed (angen ateb erbyn 19.10.2010): Dyfarniad y CT: Canaitawyd.

Caniatâd Cynllunio gan GSC

8.4 Adeiladu annedd: Plot 5 Maeshyfryd, Llambed. Ymgeisydd Mr E Davies. Rhif y Cais: A100342.

8.5 Adeiladu annedd: Plot 6 Maeshyfryd, Llambed: Ymgeisydd: Mr & Mrs Gregson. Rhif y Cais: A100343

GWRTHODWYD CANIATÂD CYNLLUNIO AR GYFER

8.6 Arddangos Arwyddion: Garej ar gyfer Gwasanaeth Car, Heol y Gogledd, Llambed. Ymgeisydd: Mr M Swindles. Rhif y Cais: A100556AV

8.7 Pwyllgor Rheoli Datblygu: CSC 13.10.2010: er gwybodaeth. Gofynnwyd petai'r CT yn dymuno parhau â'r trefniant o dderbyn copiau papur yr Agenda a Chofnodion y Cyfarfodydd Y Pwyllgor Rheoli Datblygu; neu gorffen yn gyfangwbl â'r trefniant neu derbyn copiau electronig. Cytunwyd i barhau â'r trefnaint presennol.

8.8 Seminar "Cynllunio" Un Llais Cymru £25: er gwybodaeth.

9. MENTER LLAMBED

Y mae trafodaethau'n mynd yn eu blaen parthed yr ymsuddiad yn ymwneud â'r Neuadd Fictoria.

10. CYLLID

10.1 CEISIADAU ARIANNOL

10.1.1 Canolfan Therapi i Blant Bobath: NI wnaethpwyd cyfraniad ar gyfer yr elusen.

10.1.2 Cymorth i Ddioddefwyr Cymru £50.00.
10.1.3 Ford Gron Llambed: £300.00
10.1.4 Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Cylch 2011: £100;
10.1.5 Ambiwlans Awyr Cymru: £100
10.1.6 Home Start Ceredigion: £50.00

10.2 TALIADAU

Rhif y Siec:	Tâl ar gyfer:	Swm
001877	Neuadd yr Eglwys San Pedr: hirio'r neuadd ar gyfer cyfarfod y CT 30.9.2010	£22.50
001878	Alec Page, Gof Magl ar gyfer y gât ym Mharc-yr-orsedd & asio "Bachyn Atal" i'r gât ar y brif fynedfa	£55 TAW £9.63 CYFANSWM £64.63
001879	Mr Lyn Jones Torri Glaswellt x 6 Cae Maesyderi	£600
001880	CSC Te Parti Ieuainc Mewn Ysbryd Neuadd Fictoria	£46.00
001882	Cyllid a Thollau EM	£16.93
001883	Cyflog y Clerc Hydref 2010	£621.70
001885	Chris Studman CWN Design Cynnal a Thrwydded CMS - safle ar y we Cyngor Tref Llambed	£200 TAW £35 CYFANSWM £235
001886	Mr Gwynne Davies: hirio uchelseinydd- Dydd Sul y Cofio 2009; 2010	£120
001891	Hirio Neuadd San Pedr ar gyfer Cyfarfod y CT 28.10.10	£18.75

10.3 Y mae'r Archwilwyr Allanol BDO Stoy Hayward o'r farn y dylid cynnwys y ffens newydd Parc-yr-orsedd a'r arwyddion newydd mynedfeydd y dref ar Gofrestr Asedion Sefydlog y CT: i geisio gwybodaeth pellach.

10.4 Archwiliad mewnol y Cyfrifon gan y Maer: cytunwyd i ymwneud â'r arolwg bob 3 mis yn hytrach na bob mis fel y cytunwyd ynghynt.

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 Goleuadau Stryd

Cysylltiadau Di-fetr Dros-Dro: Goleuadau Nadolig: ar gyfer Sgwâr Harford; Stryd y Coleg; Stryd y Bont: Western Power Distribution: y mae'r ffurflen wedi ei hail-gyfeirio at sylw Mr Sam Thomas.

11.2 <u>Llwybrau Cerdded + Parc-yr-Orsedd</u>

11.2.1 Parc-yr-Orsedd: Ymgymerwyd â'r Arolwg Parc gan Digley Associates ar y 12fed o Hydref. Disgwylir adroddiad ysgrifenedig maes o law.. Cysylltodd yr arolygwr â'r Cyngor Tref ar ôl ymwnueud â'r arolwg i ddweud ei fod wedi casglu nifer o foteli a chaniau o gwrw a wasgarwyd dros y parc. Gwnaeth iddo ddwyn sylw'r Clerc hefyd at y graffiti ar orsfeydd Ymarfer Corff, y meinciau a'r castell o bren; yn ogystal â'r difrod i'r arddangosfa grochenwaith. Hysbyswyd yr heddlu gan fod Parc-yr-orsedd wedi ei gynnwys o fewn y Parth Di-Alcohol. Y mae statws o'r fath yn caniatau'r Heddlu i gipio alcohol oddi wrth bersonau sy'n yfed alcohol o fewn yr

ardaloedd penodedig. Bydd yn ofynnol i'r Cyngor Tref i gydweithio â'r Heddlu i sicrhau bod y cynllun mor effethiol â phosibl. Adroddodd y Gyng. Dorothy Williams fod y weithred o yfed y ddiod feddwol yn digwydd yn ystod y prynhawn a bod plant sy'n chwarae yn y parc yn dyst i'r weithred yn ogystal â bod yn agored i'r peryglon yn ymwneud â'r gwydr. Byddai'n fanteisiol petai person yn cadw llygad ar y parc yn feunyddiol i sicrhau diogelwch holl bersonau.

Oherwydd absenoldeb y Cyng. Chris Thomas penderfynwyd i ohirio'r drafodaeth tan cyfarfod y dyfodol. Yn y cyfamser cytunodd y Gyng. Dorothy Williams i oruwchwylio'r parc yn rheolaidd.

Adroddodd y Cyng. Chris Thomas (cyn y cyfarfod) fod person lleol wedi derbyn cyfarwyddiadau i gael gwared â'r graffiti yn ystod yr wythnos olynol, a mae'r magl ar gyfer y gât Stryd Y Gogledd wedi ei osod mewn lle gan Mr Alec Page a hefyd y gât ar brif fynedfa i'r parc wedi ei drwsio. Y mae'n ceisio amcanbrisiau ar gyfer tocio'r canghennau coed ac y mae trefniandau mewn llaw i ail-osod y plac crochenwaith ac i wella cyflwr yr arddangosfa. Bu i'r Clerc gynghori'r cyfarfod i geisio gwasanaeth ceidwad ar gyfer y parc gyda'r bwriad i gynnal a chadw'r parc, gan gynnwys ei oruwchwylio'n gyson.

Y mae'r trefniant presennol yn cynnwys un toriad gwair y mis o Ebrill i fis Medi (i gynnwys y 2 fis yma) ac y mae materion eraill ee tocio coed a thrwsio'r meinciau yn cael eu hymgymryd megis hap a damwain. Y mae'r gwaith megis chwynnu a chasglu dail yn cael eu hymgymryd yn anaml iawn ac yn ystod y 5.5 mlynedd diwethaf y maent wedi eu cario allan pan yn paratoi ar gyfer Cystadleuathau *Mewn Blodau* neu'r Lansiad Offer Cadw'n Heini yn Ebrill 2009. Y mae'r Cyng Dorothy Williams a'r Cyng. Chris Thomas wedi bod yn weithgar iawn yn ystod y gorffennol i gynnal a chadw'r parc mewn cyflwr derbyniol ond byddai trefiant parhaol yn sicrhau bod nifer y problemau cyn lleied â phosibl. Y mae CSC yn gwacau'r bin sbwriel yn gyson a Mr Ian Thunderball yn gwaredu â'r defnydd ail-gylchu yn ôl yr angen.

11.2.2 Y mae angen ail-glymu bin i'r llawr a hefyd cloriau newydd ar gyfer y biniau: Oherwydd absenoldeb y Cyng. C Thomas ni sefydlwyd os oedd y mater wedi derbyn sylw.

11.2.3 Heb ei gyflawni cyn belled: Dod o hyd i amnewidiad i'r asyn pren:

11.2.4 Cwrs Hyfforddi Archwilwyr Meysydd Chwarae: 25/26/27 Hydref 2010. Y Cyng. Chris Thomas wedi mynychu'r cwrs.

11.2.5 Cynllun Llwybrau Cymunedol CSC 2011: 50% grant- i ail-gyfeirio'r ffurflen at sylw'r Cyng. Carter.

11.3 <u>Camerau TCC</u>

11.3.1 Adroddiad Misol Medi 2010: Bu yna 4 cais gan yr Heddlu i arsylwi ar ddeunydd digidol a 2 gais am ddisgiau copi parthed ymddygiad gwrth-gymdiethasol; ysgarmes; ymosodiad a difrod troseddol.

11.3.2 Fforwm CTCC ym Mhenmorfa 22ain o Dachwedd 2010: manylion wedi eu trosglwyddo at sylw'r Maer.

11.4 <u>Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi</u>

Cofnodion ynghlwm o'r cyfarfod o'r 20fed o Hydref 2010.

12. U.F.A.

12.1 Ymgynghoriad ar Wasanaeth Bws Traws Cambria: Lluniwyd ymateb i'r ymgynghoriad gan y Maer; derbyniwyd gan y Cyngor Tref. I'w gyfeirio at y Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol. (Atodiad 2)

12.2 Neges oddi wrth Reolwraig y Gymdeithas Adeiladu'r Principality, Llambed yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl i'r Maer i gysylltu â hi.

Bu i'r Cyfarfod ddirwyn i ben am 9.20pm..

13. DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF

13.1 Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi: Nos Fercher 17eg o Dachwedd am 6.30pm yn Swyddfa Menter Llambed.

13.2 Cyfarfod Misol nesaf: **Nos lau 25ain o Hydref am 7.30pm.**

----------(Arwyddwyd/Dyddiad)